# ‘Mae pob dim ar ôl dedfrydu’: Profiadau carcharorion ar remánd

Papur canfyddiadau allweddol gan Brif Arolygydd Carchardai EF

Mawrth 2026

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad | | | 3 |
| Adran 1 | Cefndir | | 4 |
| Adran 2 | Y nifer o garcharorion ar remánd a'u proffil | | 6 |
| Adran 3 | Canlyniadau i garcharorion ar remánd | | 8 |
| | Atodiad I | Methodoleg | 16 |
| | Atodiad II | Cyfeiriadau | 17 |

# Cyflwyniad

Mae oedi mewn llysoedd yn golygu bod carcharorion yn aros cyfnodau annerbyniol o hir am eu hachos llys. Mae hyn wedi arwain at gynnydd dramatig yn nifer y carcharorion ar remánd neu sy'n aros i gael eu dedfrydu, ac mae hyn wedi cyfrannu at yr argyfwng capasiti parhaus mewn carchardai.

Mae llawer o garcharorion sydd ar remánd yn cael eu cadw mewn carchardai adfeiliedig, canol dinas o Oes Fictoria lle mae'r amodau ymhlith y gwaethaf yn yr ystâd. Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith y grŵp hwn a dywedodd 67% yn ein harolygon bod ganddynt anawsterau iechyd meddwl.

Mewn llawer o'r carchardai sy'n cael eu henwi yn yr adroddiad hwn, roedd carcharorion ar remánd yn cynrychioli cyfran fawr o'u poblogaeth, ond ni welsom fod llawer yn cael ei wneud i helpu'r grŵp hwn sy'n agored iawn i niwed. Disgrifiodd dynion a menywod ddiffyg cymorth o ran cysylltu ag aelodau eu teulu pan wnaethant gyrraedd y carchar i ddechrau, ac nad oedd digon yn cael ei wneud ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r llys.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r meysydd y mae carchardai wedi dechrau mynd i'r afael â'r anawsterau sy'n wynebu'r carcharorion hyn, ond gyda thwf yn y boblogaeth hon yn endemig yn awr, mae'n rhaid i'r gwasanaeth carchardai a charchardai unigol feddwl yn fwy strategol am sut maent yn cefnogi dynion a menywod ar remánd.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Mawrth 2026

# Adran 1 Cefndir

1.1 Mae’r rhan fwyaf o bobl sydd yn y carchar wedi cael euogfarn o drosedd ac maen nhw wedi’u dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i bob carcharor. Mae nifer a chyfran gynyddol o garcharorion ar remánd.


1.2 Mae dwy garfan benodol o garcharorion ar remánd: y rhai sy’n aros am eu hachos llys a’r rhai sy’n aros i gael eu dedfrydu.

1.3 Yn Rhagfyr 2025 roedd 16,520 o garcharorion sy’n oedolion ar remánd, gan gynrychioli 19% o gyfanswm y boblogaeth carcharorion. O’r grŵp hwn, nid oedd 10,835 o garcharorion wedi cael eu hachos llys ac roedd 5,685 wedi cael euogfarn ond heb eu dedfrydu.

1.4 Mae carcharorion yn cael eu rhoi ar remánd yn y carchar o’r llys. Er bod yr ôl-groniadau o achosion llys yn ffactor sy’n cyfrannu’n fawr at y pwysau presennol ar y boblogaeth, mae’n annhebygol y bydd y boblogaeth ar remánd yn lleihau’n sylweddol yn y dyfodol agos.

**Ffigur 1: Y boblogaeth ar remánd sy’n cynyddu – data ar gyfer 31 Rhagfyr pob blwyddyn**

Noder: mae’n bosibl na fydd y canrannau yn creu cyfanswm oherwydd talgrynnu




Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwyr

1.5 Mae Rheolau Carchardai 1999 yn datgan sut y dylid trin carcharorion ar remánd, gyda gofynion penodol ar gyfer y rhai nad ydynt wedi’u cael yn euog o unrhyw drosedd eto. Mae PSO 4600 ‘Unconvicted, Unsentenced and Civil Prisoners’ yn amlinellu’r gofynion gweithredol ymarferol, yn benodol bod yn rhaid i lywodraethwyr wneud yn siŵr bod carcharorion heb eu heuogfarnu yn derbyn pob cyfleuster rhesymol i’w helpu gyda materion allweddol fel mechnïaeth, paratoi ar gyfer achos

llys a chadw eu llety a'u cyflogaeth. Mae ganddynt hawl i hawliau a breintiau eraill, gan gynnwys cael eu cadw ar wahân i garcharorion wedi'u heuogfarnu, peidio gweithio oni bai eu bod yn dewis gwneud a derbyn cymaint o ymweliadau ag y byddant yn dymuno, o fewn terfynau rhesymol.

1.6 Fodd bynnag, caniateir disgresiwn sylweddol i lywodraethwyr, gyda'r canllawiau yn datgan 'nad yw'r breintiau arbennig hyn yn absoliwt a gellir eu cymedroli drwy ystyried diogelwch, angen gweithredol ac ystyriaethau ymarferol'.

1.7 Ar ôl i garcharorion gael eu heuogfarnu, bydd bron pob un o'r hawliadau a breintiau uchod yn dod i ben. Felly, nid oes gan garcharorion heb eu dedfrydu hawl i'r un breintiau â charcharorion heb eu dedfrydu.

1.8 Mae wedi hen sefydlu bod mathau penodol o risgiau yn gysylltiedig â'r ddwy garfan o garcharorion ar remánd, gan gynnwys straen seicolegol a straen ac ansicrwydd o aros am achos llys neu ddedfryd. Mae ystadegau diogelwch yn y ddalfa yn dangos bod cyfradd uwch o farwolaethau hunan-achosedig ymhlith carcharorion ar remánd o gymharu â'r rhai sydd wedi'u dedfrydu (1.8 fesul 1,000 o gymharu â 0.8 fesul 1,000).

1.9 Yn 2012 cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai EF adolygiad thematig am garcharorion ar remánd 'Carcharorion ar Remánd: Adolygiad thematig – gan ddod i'r casgliad eu bod yn rhy aml yn derbyn llai o help a chymorth o gymharu â charcharorion wedi'u dedfrydu. Roedd yr adroddiad yn datgan:

> 'Mae angen i amgylchiadau ac anghenion penodol carcharorion ar remánd gael eu cydnabod yn fwy clir a chyson, mewn polisïau ac mewn arfer gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn y ddalfa am y cyfnod byrraf posibl a'u bod yn derbyn yr un cymorth â charcharorion sydd wedi'u heuogfarnu a'u dedfrydu.'

1.10 Mae canfyddiadau ein harolygiadau ers hynny yn awgrymu mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r ddarpariaeth ar gyfer carcharorion ar remánd, er bod y nifer a'r gyfran o garcharorion ar remánd wedi parhau i gynyddu'r un pryd. Mae ein hadroddiadau blynyddol wedi amlygu darpariaeth anghyfartal i'r rhai ar remánd ac mae data ein harolwg yn datgelu gwahaniaethau ym mhrofiad carcharorion wedi'u dedfrydu a charcharorion ar remánd. Rydym wedi adrodd ar broblemau, gan gynnwys hepgor carcharorion ar remánd o'r gwasanaethau ailsefydlu dan gontract yn 2021, a oedd yn golygu na allai llawer ohonynt gael cymorth hanfodol, er enghraifft gyda llety neu gyflogaeth wrth gael eu rhyddhau.

1.11 Er mwyn archwilio'r canlyniadau i garcharorion ar remánd mewn mwy o fanylder, fe wnaethom gynnal adolygiad o 12 adroddiad arolygu ar garchardai derbyn, a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Fe wnaethom hefyd gwblhau dadansoddiad o ganfyddiadau ein harolwg carcharorion ar gyfer yr un cyfnod, a oedd yn cynnwys

dadansoddiadau ystadegol o ymatebion i gwestiynau caeedig a dadansoddiad thematig o'r sylwadau a wnaed mewn cwestiynau agored.

1.12 Yn ein harolwg carcharorion fe wnaethom ofyn y cwestiwn 'Ydych chi'n cyflawni dedfryd ar hyn o bryd?' Cyfeirir at garcharorion a ymatebodd 'Na - ar remánd neu'n aros am ddedfryd', fel carcharorion 'ar remánd' yn yr adroddiad hwn. Mae ein holl allbwn arolygon, gan gynnwys ar gyfer arolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, yn parhau i gyfeirio at y grŵp hwn fel 'heb eu dedfrydu'. Cyfeirir at garcharorion a ymatebodd 'Ydw', neu 'Ydw - ar adalwad' fel 'wedi'u dedfrydu'.

# Adran 2 Y nifer o garcharorion ar remánd a'u proffil

## Y boblogaeth carchardai sy'n newid

2.1 Mae carchardai derbyn yn cadw cyfran fawr o garcharorion ar remánd. Yn y carchardai derbyn a arolygwyd, roedd gan dri chwarter ohonynt boblogaethau ar remánd o dros 50%.

**Tabl 1: Y nifer a'r ganran o garcharorion ar remánd mewn arolygiadau o garchardai derbyn (adroddiadau a gyhoeddwyd 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025)**

Ystadegau o'r boblogaeth a gynhyrchwyd ar ddechrau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

| Carchar | Y boblogaeth ar adeg yr arolygiad | Cyfanswm y carchardai ar remánd (heb eu rhoi ar brawf ac wedi'u dedfrydu a heb eu dedfrydu) | Canran y boblogaeth |
|---|---:|---:|---:|
| Belmarsh | 719 | 425 | 59% |
| Caerdydd | 743 | 386 | 52% |
| Chelmsford | 711 | 484 | 68% |
| Durham | 985 | 732 | 74% |
| Forest Bank | 1,464 | 815 | 56% |
| Hull | 957 | 450 | 47% |
| Lewes | 590 | 312 | 53% |
| Nottingham | 929 | 529 | 57% |
| Peterborough (Dynion) | 916 | 423 | 46% |
| Wandsworth | 1,513 | 930 | 61% |
| Winchester | 626 | 380 | 61% |
| Styal* | 390 | 133 | 34% |
| **Cyfanswm** | **10,543** | **5,999** | **57%** |

* Styal oedd yr unig garchar menywod yn y sampl.

Ffynhonnell: NOMIS Carchardai


2.2 Mewn rhai carchardai, mae'r cynnydd yn nifer y carcharorion ar remánd yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn sylweddol. Er enghraifft, yn ein harolygiad o Durham ym mis Tachwedd 2021, nodwyd bod bron dwy ran o dair o'r boblogaeth ar remánd, ond pan wnaethom ddychwelyd ym mis Mai 2024, roedd y garfan hon wedi cynyddu i ychydig o dan dri chwarter y boblogaeth (74%). Yn yr un modd, yn Chelmsford, roedd

poblogaeth y carcharorion ar remánd wedi cynyddu o 60% yn ein harolygiad yn Awst 2021 i 68% ym mis Mai 2024.

2.3 Datgelodd dadansoddiad o'n data arolygon lefel uchel o angen ymhlith y carcharorion ar remánd, gan gynnwys mewn cysylltiad ag iechyd meddwl, anabledd a bod ganddynt blant o dan 18 oed.

**Ffigur 2: Carcharorion ar remánd**

Carchardai derbyn dynion a menywod, Adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.




Ffynhonnell: Arolwg arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

# Adran 3 Canlyniadau i garcharorion ar remánd

3.1 Er ein bod yn disgwyl i garchardai ddarparu gwybodaeth a chymorth perthnasol i garcharorion ar remánd, fe wnaethom ganfod bod bylchau yn aml yn yr hyn yr oedd y carcharorion hyn yn ei dderbyn.

3.2 Nid oedd arweinwyr bob amser wedi datblygu strategaeth i reoli nifer uwch o garcharorion ar remánd yn ein harolygiad o Wandsworth, fe wnaethom ganfod bod y gefnogaeth yn wael er bod y carcharorion hyn yn cynrychioli mwy na hanner y boblogaeth, ac yn Chelmsfort, roedd staff yn gorfod rheoli nifer uwch o dderbyniadau a throsglwyddiadau heb unrhyw adnoddau ychwanegol. Yn Forest Bank, nid oedd yr arweinwyr wedi bod yn ddigon uchelgeisiol yn eu hymdrechion i ymgysylltu, cymell a chyflawni anghenion y nifer gynyddol o ddynion ar remánd.

## Diffyg cefnogaeth yn y dyddiau cynnar

3.3 Yr ychydig ddyddiau cyntaf mewn carchar yw rhai o'r dyddiau pwysicaf ar gyfer nodi a mynd i'r afael ag anghenion carcharorion. Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod nad oedd carcharorion ar remánd bob amser yn derbyn digon o gefnogaeth. Dywedodd bron hanner wrthym na wnaethant dderbyn digon o wybodaeth yn ystod eu cyfnod sefydlu – dywedodd un y byddent wedi hoffi derbyn gwybodaeth benodol am beth oedd ar gael i garcharorion ar remánd.

> "Dylai'r carchar esbonio cymhelliant mewn siart clir mewn llyfr cyflwyniad a gwahaniaethu rhwng carcharorion ar remánd /wedi'u dedfrydu."
>
> Arolwg carcharorion, Styal, Rhagfyr 2024

3.4 Dangosodd ein harolwg bod carcharorion ar remánd yn llai tebygol o allu cael mynediad at eu heiddo personol yn yr ychydig ddyddiau cyntaf yn y carchar o gymharu â charcharorion wedi'u dedfrydu (35% o gymharu â 45%).

3.5 Roedd carcharorion ar remánd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n isel wrth gyrraedd y carchar yn llai tebygol hefyd o dderbyn help gyda hyn gan aelod o staff, o gymharu â charcharorion wedi'u dedfrydu, pryder penodol o ystyried y risgiau diogelwch hysbys sy'n gysylltiedig â'r garfan hon, gan gynnwys cyfradd uwch o farwolaeth hunan-achosedig. Dim ond 19% o garcharorion ar remánd a dderbyniodd rifau cymeradwy wedi'u hychwanegu i'w cyfrif ffôn (PIN) o fewn 24 awr. Roedd hyn yn isel o ystyried pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â theuluoedd a ffrindiau yn y dyddiau cynnar, yn arbennig ar gyfer iechyd meddwl.

## Mynediad cymysg at wybodaeth am fechnïaeth a gwybodaeth gyfreithiol

3.6 Yn gyffredinol, fe wnaethom ganfod bod gan garcharorion ar remánd fynediad rhesymol at wybodaeth am fechnïaeth. Yn Forest Bank, roedd swyddog mechnïaeth yn cwrdd â phob carcharor ar remánd, a oedd yn cynnig help ar sut i wneud cais am fechnïaeth. Er bod hyn yn digwydd yng ngharchar dynion Peterborough hefyd, roedd amser y swyddog yn cael ei rannu rhwng y safle dynion a menywod, felly roedd amser ar gyfer y gwaith hwn yn gyfyngedig.

3.7 Ar adeg ein harolygiadau, ni allai pob un o'r carchardai derbyn ddarparu'r wybodaeth hon i'w poblogaeth ar remánd: pan wnaethom arolygu Wandsworth, nid oedd gwybodaeth mechnïaeth ar gael i garcharorion ac yn Lewes nid oedd unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Fe wnaethom ganfod bod cynnydd mawr yn y boblogaeth mechnïaeth yn Durham, a oedd yn arwain at arosiadau hwy posibl i garcharorion.

3.8 Yn gyffredinol roedd gan lyfrgelloedd gyflenwad da o destunau cyfreithiol cyfredol i garcharorion eu defnyddio ac yn y rhan fwyaf o safleoedd roedd digon o ddarpariaeth ymweliadau cyfreithiol i gyflawni'r galw. Yng Nghaerdydd gallai carcharorion gael mynediad at liniaduron diogel i adolygu eu hachosion. Fodd bynnag, yn Lewes, roedd y galw am ymweliadau cyfreithiol mor uchel, roedd carcharorion yn aros hyd at chwe wythnos am ymweliad.


## Ychydig iawn o integreiddio i fywyd a diwylliant y carchar

3.9 Amlygodd canfyddiadau ein harolwg nifer o feysydd lle'r oedd bywyd bob dydd i garcharorion ar remánd yn sylweddol is na'r rhai sy'n bwrw dedfryd. Er enghraifft, roedd gan lai o garcharorion ar remánd eu cell eu hunain ac roeddynt yn aml yn gorfod rhannu gofod wedi'i gynllunio ar gyfer un. Roeddynt yn llai tebygol o gael cawod bob dydd ac roeddynt yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt ddigon o ddillad glân a oedd yn eu ffitio, a allai achosi pryder arbennig pe byddai ganddynt ymddangosiad yn y llys yn fuan.

3.10 Mae cyfran fawr o garcharorion ar remánd wedi'u lleoli ar asgell noson gyntaf neu sefydlu. Mae trosiant uchel o garcharorion ar yr esgyll hyn, sy'n ei gwneud yn anodd i ddarparu dillad, esgidiau, cyfarpar a deunyddiau dodrefnu meddal i bawb. Roedd arosiadau hir ar yr esgyll hyn yn debygol o gyfrannu at brofiadau mwy negyddol i garcharorion ar remánd.

**Ffigur 3: Roedd carcharorion ar remánd yn cael profiadau mwy negyddol gydag elfennau o fywyd carchar ar yr asgell**

Carchardai derbyn dynion a menywod, adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.





Ffynhonnell: Arolwg arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF

3.11 Roedd carcharorion ar remánd hefyd yn llai tebygol o dderbyn sesiynau cymorth rheolaidd gan swyddog carchar enwebedig a elwir yn weithiwr allweddol, o gymharu â charcharorion wedi'u dedfrydu (57% o gymharu â 66%), a oedd yn golygu bod rhai yn methu allan ar gymorth mwy unigol. Efallai nad yw'n syndod bod carcharorion ar remánd yn cael mwy o anhawster i wneud cais a'u bod yn llai tebygol o wybod sut i gysylltu â sefydliadau annibynnol fel y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) a'r Ymchwiliadau Annibynnol i Gwynion Carcharorion (IPCI).

**Ffigur 4: Roedd carcharorion ar remánd yn cael mwy o anhawster i gyflwyno ceisiadau neu bryderon gyda sefydliadau annibynnol**

Carchardai derbyn dynion a menywod, adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.




Ffynhonnell: Arolwg arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF

3.12 Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio nad yw carcharorion ar remánd yn cael eu hintegreiddio i fywyd a diwylliant carchar i'r un graddau â charcharorion wedi'u dedfrydu a bod ganddynt lai o fynediad at adnoddau a gwybodaeth fel arfer. Roedd carchardai yn darparu mwy i'w carcharorion wedi'u dedfrydu, a oedd yn creu rhwystredigaeth ymhlith y boblogaeth ar remánd.

“Rwyf ar remánd ac […] nid wyf yn derbyn llythyrau, cyfreithiol na phersonol, negeseuon e-bost nac ymatebion i geisiadau.”


Arolwg carcharorion, Lewes, Chwefror 2024

## Problemau yn cael mynediad at ofal iechyd

3.13 Nid oedd mynediad carcharorion ar remánd at ofal iechyd bob amser yn ddigon da. Yn ôl ein harolygon, roedd y rhai ag anabledd neu broblem iechyd meddwl yn llai tebygol o fod wedi’u cefnogi gyda hyn o gymharu â charcharorion wedi’u dedfrydu. Roedd hefyd yn anoddach iddynt weld nyrs yn y carchar ac, yng Nghaerdydd, roedd yn anodd iddyn nhw weld gweithiwr camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, yn Lewes, roedd staff deintyddol yn gweithio’n hyblyg i gyflawni gofynion y trosiant uchel o garcharorion ar remánd.

**Ffigur 5: Roedd diffyg cymorth i garcharorion ar remánd a ddywedodd bod ganddynt anabledd neu broblemau iechyd meddwl**

Carchardai derbyn dynion a menywod, adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.




Ffynhonnell: Arolwg arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

3.14 Dywedodd carcharorion ar remánd wrthym am eu rhwystredigaeth gyda gwasanaethau gofal iechyd carchardai, gan gynnwys diffyg cefnogaeth iechyd meddwl a phroblemau o ran cael mynediad at feddyginiaeth ragnodedig.

“Rwy’n credu bod ‘angen cymorth ychwanegol’ ar bobl ag angen iechyd meddwl. Asgell arbennig o bosibl er mwyn rhoi meddyginiaeth iddynt. Rwyf wedi teimlo’n hunanladdol ar y cyfnod remánd hwn [...] Cymerodd bedwar mis o feddyginiaeth [...] Gallai fod wedi gwella yn gyflymach ar asgell iechyd meddwl.”

Arolwg carcharorion, Lewes, Chwefror 2024

> “Rwyf wedi bod ar remánd am ddwy flynedd yn y carchar hwn ac nid yw unrhyw aelod o’r staff yn poeni am fy iechyd meddwl. Rwyf wedi dweud wrthynt fod angen cymorth arnaf gyda fy iechyd meddwl ond nid oes unrhyw beth yn digwydd. Mae’r gofal iechyd yn y carchar hwn yn ofnadwy ac mae angen ei wella.”
>
> Arolwg carcharorion, Nottingham, Mai 2024

## Amser cyfyngedig allan o’r gell ac mewn gweithgarwch

3.15 Rydym yn disgwyl i garchardai ystyried anghenion eu poblogaeth wrth ddatblygu cwricwlwm a rhaglen waith i garcharorion. Er nad yw’n ofynnol i garcharorion heb eu dedfrydu weithio, gallent ddewis gwneud hynny.

3.16 Mewn rhai carchardai gwelsom waith cadarnhaol i adlewyrchu cynnydd yn y boblogaeth ar remánd. Er enghraifft, roedd gan yr uwch dîm arwain yn Durham strategaeth wedi’i diffinio’n dda a oedd yn ystyried y gyfran uchel o garcharorion ar remánd. Pan fyddai’r carcharorion hyn yn cyrraedd y carchar, roedd eu hanghenion addysg yn cael eu gwerthuso i wneud yn siŵr eu bod yn derbyn y cymorth cywir.

3.17 Yn Chelmsford, roedd arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm oedd yn darparu ar gyfer y nifer sylweddol o garcharorion ar remánd, gan gyflawni anghenion y rhan fwyaf o boblogaeth y carchar, yn seiliedig ar yr anghenion cyflogaeth yn yr ardal. Yn gadarnhaol, dywedodd 73% o’r carcharorion ar remánd a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag addysg yn y carchar y byddai’n ddefnyddiol iddynt wrth gael eu rhyddhau – cyfran uwch na’r rhai a oedd wedi’u dedfrydu.

3.18 Fodd bynnag, nid oedd yr amser yr oedd carcharorion ar remánd yn ei gael allan o’u cell yn ddigon da bob amser. Yn ôl ein harolwg, roeddynt yn cael llai o amser allan o’r gell: dywedodd 63% wrthym eu bod yn treulio llai na dwy awr y tu allan i’w cell ar y penwythnos, o gymharu â 56% o garcharorion wedi’u dedfrydu. Hefyd, roedd carcharorion ar remánd yn llai tebygol o wybod pryd yr oedd yr amseroedd rhyddhau yn y carchar o gymharu â charcharorion wedi’u dedfrydu (78% o gymharu â 83%), sydd unwaith eto yn pwysleisio diffyg integreiddio ym mywyd y carchar.

3.19 Yn aml nid oedd carcharorion ar remánd yn ymgysylltu mewn gweithgarwch pwrpasol; yn Belmarsh, roeddynt yn llai tebygol o fod wedi gwneud swydd yn y carchar o gymharu â charcharorion wedi’u dedfrydu. Nid oedd y carcharorion hyn bob amser yn teimlo bod digon ar gael iddynt, a phan oeddynt yn gwneud swydd yn y carchar, roeddynt yn credu bod y cyflogau yn rhy isel.

"Nid oes unrhyw gyrsiau buddiol i garcharorion ar remánd."

Arolwg carchardai, Hull, Mehefin 2024

"Mwy o gyrsiau a chyfleoedd i garcharorion ar remánd."

Arolwg carcharorion, Styal, Rhagfyr 2024

"Mae'r cyflogau yn isel iawn i garcharorion categori B (swyddi remánd) yr wyf wedi'u gwneud. A wnewch chi gynyddu'r cyflogau ar gyfer addysg a gwaith."

Arolwg carcharorion, Chelmsford, Ionawr 2024

## Mynediad gwael at ymweliadau

3.20 Nid oedd gan rai carchardai ddigon o amseroedd ymweliadau cymdeithasol i garcharorion dderbyn y nifer yr oedd ganddynt hawl i'w cael. Mewn un, nid oedd nifer yr ymweliadau a oedd ar gael wedi dychwelyd i'r lefelau cyn COVID ac ni allai'r rhai ar remánd dderbyn eu lwfans llawn, a oedd yn achosi rhywfaint o rwystredigaeth. Fodd bynnag, roedd Forest Bank wedi cynyddu eu darpariaeth ymweliadau i garcharorion ar remánd ers ein harolygiad diwethaf, ac roedd bellach yn gallu cynnig hawl llawn i'r carcharorion hyn.

[C20.3 Beth fyddech chi'n hoffi ei weld yn newid yma?]

"Cysylltiadau gwell gyda'r teulu (mwy o ymweliadau) am nad ydynt yn gweithredu canllawiau sefydledig y llywodraeth, sef dau ymweliad y mis yn barhaol, hyd yn oed ar gyfer carcharorion ar remánd'."

Arolwg carcharorion, Nottingham, Mai 2024

3.21 Dywedodd carcharorion ar remánd hefyd yn ein harolwg eu bod yn llai tebygol o gael eu hannog gan y staff i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau o gymharu â charcharorion a oedd wedi'u dedfrydu (25% o gymharu â 32%). Dywedodd rhai wrthym y byddent yn hoffi mwy o gymorth i gysylltu â'u teulu a'u ffrindiau, gan awgrymu diffyg ffocws gan garchardai i sicrhau bod y cyswllt hwn yn digwydd yn rheolaidd. Roedd hyn yn aml yn arbennig o berthnasol pan oedd pobl yn cyrraedd y carchar, pan oedd hyd yn oed cysylltu â ffrindiau a theulu i roi gwybod iddynt eu bod yn y carchar yn gallu bod yn heriol.

> “Mae angen mwy o help a chymorth i gysylltu â’n plant.”
>
> Arolwg carcharorion, Caerdydd, Ionawr 2024

> “Wrth gael eich arestio, hoffwn pe bai modd cysylltu ag aelodau agos o’r teulu i roi gwybod am yr arestiad, o leiaf yn ystod y mis cyntaf.”
>
> Arolwg carcharorion, Chelmsford, Ionawr 2024

## Ymyriadau cyfyngedig

3.22 Roedd gan rai carchardai help, ymyriadau a chyrsiau ymarferol ar gyfer eu poblogaeth remánd, ond yn gyffredinol nid oedd llawer ar gael ar draws y safleoedd. Yn Belmarsh, roedd y rhan fwyaf o ymyriadau ar gael i garcharorion wedi’u dedfrydu yn unig ac yn Hull, er bod carcharorion ar remánd yn aml yn cael cynnig cymorth i reoli eu cyllid a mynd i’r afael â’u dyled, ychydig iawn o ddarpariaeth arall a gynigiwyd iddynt. Roedd carcharorion ar remánd wedi’u heithrio o gymorth am gyllid, budd-daliadau a chymorth dyled yn Nottingham, ond roedd carcharorion wedi’u dedfrydu wedi canmol y cymorth a gawsant. Nid yw’n syndod bod carcharorion yn y ddalfa wedi dweud wrthym eu bod eisiau gwell mynediad at yr ymyriadau a’r cyrsiau hyn.

> “Nid oes unrhyw gyfleoedd i garcharorion ar remánd, hyd yn oed wrth ddisgwyl dedfryd hir, mae popeth ar ôl dedfrydu.”
>
> Arolwg carcharorion, Styal, Rhagfyr 2024

## Diffyg cymorth ailsefydlu a chyn rhydd

3.23 Rydym yn disgwyl i anghenion ailsefydlu carcharorion ar remánd gael eu cyflawni:

> **Arolygiaeth Carchardai EF, ‘Disgwyliadau’**
>
> Mae gan garcharorion ar remánd fynediad at yr ystod lawn o gymorth ailsefydlu, gan gynnwys cyngor a gwybodaeth ynglŷn â mechnïaeth.

3.24 Mewn adroddiadau blaenorol, gan gynnwys ‘Ansawdd y gwaith a wneir gyda menywod: Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ac Arolygiaeth Carchardai EF’, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024, rydym wedi tynnu sylw at y diffyg cefnogaeth sydd ar gael i garcharorion sydd ar remánd mewn meysydd allweddol fel cynnal tenantiaethau, hysbysu cyflogwyr a rheoli dyledion wrth aros am achos llys neu ddedfrydu. Heb y gefnogaeth angenrheidiol, gall y cyfnod hwn fod yn hynod

aflonyddgar, nid yn unig i'r rhai sydd ar remánd (y bydd cyfran ohonynt yn mynd ymlaen i gael eu canfod yn ddieuog), ond hefyd i'w teuluoedd. Ar ei waethaf, gall cyfnod ar remánd gyflwyno cyfres o risgiau newydd i unigolion. Er enghraifft, gall rhywun adael y carchar ar ôl cael ei ganfod yn ddieuog, ond ar ôl colli eu cyflogaeth flaenorol neu eu cartref.

3.25 Canfu dadansoddiad ar gyfer y papur canfyddiadau hwn nad yw'r cymorth ailsefydlu yn ddigon da ar gyfer carcharorion ar remánd, ac nid yw eu hanghenion yn cael eu nodi na'u cyflawni'n ddibynadwy. Byddai'r grŵp hwn yn cael eu hallgáu yn aml o gontractau prawf allweddol ac er bod y contractau wedi'u diweddaru yn awr, mae cynnydd i gyflawni eu hanghenion wedi bod yn llawer rhy araf. Nid oedd y carchardai sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn bob amser yn helpu carcharorion i ddatrys materion yn y gymuned, gan gynnwys cymorth tai ac ariannol. Mewn rhai roedd y cymorth ar gael ond dim ond y carcharorion wedi'u dedfrydu oedd yn derbyn hyn. Ni allai carcharorion ar remánd agor cyfrif banc hefyd ac, yn rhai safleoedd, ni allent sicrhau math o ddull adnabod.


3.26 Mae canllawiau presennol HMPPS yn datgan y bydd carcharorion ond yn derbyn rheolwr troseddwr carchar (POM) ar ôl cael eu dedfrydu. Mae hyn yn golygu nad yw carcharorion ar remánd yn derbyn unrhyw gysylltiad rheolaidd gyda'r grŵp staff gwybodus hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a sicrhau eu bod yn wybodus. Disgrifiodd carcharorion ar remánd yn Chelmsford y teimlad o deimlo'n anweledig a dywedodd eraill wrthym eu bod eisiau mynediad gwell at yr uned rheoli troseddwyr (OMU). Roedd rhai OMU wedi addasu'n rhannol i'r her hon, er enghraifft dyrannu POM i'r carcharorion mwyaf cymhleth neu risg uchel sydd ar remánd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn parhau i'w dyrannu i garcharorion wedi'u dedfrydu yn unig wrth gyflawni'r swm uchel o dasgau hanfodol y mae angen eu gwneud mewn derbynfa brysur mewn carchar.

3.27 Fe wnaethom ganfod rhywfaint o waith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud yn Styal. Roedd arweinwyr wedi cynyddu adnoddau i reoli cynnydd diweddar yn y nifer o fenywod ar remánd ac roeddynt yn cynnig cymorth creadigol i leihau aildroseddu. Roedd hefyd yn galonogol gweld, bod clinigau POM wythnosol wedi'u cyflwyno ar bob asgell breswyl yn Durham er mwyn cynyddu mynediad at staff OMU. Roedd rheolwyr yn Durham hefyd yn asesu anghenion eu poblogaeth ar remánd yn effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod cymorth priodol ar gael.

3.28 Dangosodd ein harolwg fod llawer llai o garcharorion ar remánd a oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau yn y tri mis nesaf yn cael cymorth i baratoi ar gyfer eu rhyddhau na charcharorion a oedd wedi'u dedfrydu (23% o gymharu â 56%). Roeddynt hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn derbyn cefnogaeth mewn meysydd penodol cyn cael eu rhyddhau.

**Ffigur 6: Roedd carcharorion ar remánd yn derbyn llai o gymorth ailsefydlu na charcharorion wedi'u dedfrydu, os oeddynt ei angen**

Carchardai derbyn dynion a menywod, adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF Ebrill 2024 – Mawrth 2025.




Ffynhonnell: Arolwg Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF

3.29 Yn Belmarsh roedd swyddi gwag yn y tîm cyn rhyddhau, oedd yn asesu anghenion ailsefydlu ac yn atgyfeirio carcharorion at ddarparwyr perthnasol, ac ni allent asesu anghenion carcharorion ar remánd. Fodd bynnag, roedd proses recriwtio i'r tîm yn mynd rhagddi ac roedd bwriad i ailgyflwyno asesiad o'r carcharorion hyn yn raddol ar ôl i'r lefelau staffio gynyddu.

3.30 Nid yw canlyniadau llety ar gyfer carcharorion ar remánd wedi'u cynnwys yn y data llety gan HMPPS ac felly nid yw gwybodaeth am eu lleoliad ar ôl cael eu rhyddhau yn hysbys.

# Atodiad I Methodoleg

Mae’r papur canfyddiadau hwn yn tynnu ar dystiolaeth o 12 arolygiad o garchardai derbyn a gyhoeddwyd rhwng y cyfnod adrodd blynyddol o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. Fel rhan o sylfaen dystiolaeth Arolygiaeth EF, cynhelir arolwg cynrychiadol o garcharorion ar ddechrau pob arolygiad. Mae’r holiadur yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy’n hwyluso dadansoddiad meintiol, er mwyn gallu cymharu grwpiau o fewn y sampl, a chwestiynau agored ar y diwedd sy’n galluogi carcharorion i fynegi’r pethau mwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar yn eu geiriau eu hunain.

Cynhaliwyd dadansoddiad ar 1,911 o ymatebion o gyfanswm o 12 carchar derbyn (11 yn cadw dynion ac un yn cadw menywod). Yn ein harolwg carcharorion roeddem yn gofyn y cwestiwn ‘Ydych chi’n bwrw dedfryd ar hyn o bryd?’. Cynhaliwyd dadansoddiad cymharol yn cymharu ymatebion carcharorion a ymatebodd ‘Na – ar remánd neu’n aros am ddedfryd’ gyda’r rhai a ymatebodd ‘Ydw’, neu ‘Ydw – ar adalwad’, a phrofwyd arwyddocâd ystadegol y gwahaniaethau. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y grwpiau hyn fel ‘carcharorion ar remánd’ a ‘charcharorion wedi’u dedfrydu. Fodd bynnag, mae holl allbynnau ein harolygon, gan gynnwys yr arolygiadau sydd yn yr adroddiad hwn, yn parhau i gyfeirio at y grwpiau hyn fel carcharorion ‘heb eu dedfrydu’ ac ‘wedi’u dedfrydu’.

Drwy gydol yr adroddiad dim ond pan fydd y rhain yn ystadegol arwyddocaol yr ydym yn cyfeirio at gymariaethau rhwng y ddau grŵp. Mae’r lefel arwyddocaol wedi’i gosod ar 0.01, sy’n golygu mai dim ond 1% o siawns sydd bod y gwahaniaeth yn y canlyniadau oherwydd siawns.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o ymatebion y carcharorion i’r cwestiynau agored ar ddiwedd yr holiadur hefyd. Adolygwyd yr holl sylwadau perthnasol yn systematig gan ymchwilydd, a nodwyd themâu.

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag egwyddorion moesegol Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer gweithgareddau ymchwil: Egwyddorion Moesegol ar gyfer ymchwil – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (www.hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk).

# Atodiad II Cyfeiriadau

Arolygiaeth Carchardai EF (2012) ‘Remánd Prisoners: A thematic review’. Ar gael yn: Remánd prisoners – HM Inspectorate of Prisons

Arolygiaeth Carchardai EF ac Arolygiaeth Prawf EF (2024) Ansawdd gwaith a wnaed gyda menywod. Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ac Arolygiaeth Carchardai EF. Ar gael yn: The quality of work undertaken with women – HM Inspectorate of Prisons

Gwasanaeth Carchardai EF (2020) ‘Prison Service Order 4600 ‘Unconvicted, Unsentenced and Civil Prisoners’. Ar gael yn: PSO-4600-unconvicted-unsentenced-civil-prisoners.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2025) Ystadegau Rheoli Troseddwyr chwarterol: Ebrill – Mehefin 2025. Ar gael yn: Ystadegau rheoli troseddwyr chwarterol: Ebrill – Mehefin 2025 - GOV.UK

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2026) Ystadegau Rheoli Troseddwyr chwarterol: Gorffennaf-Medi 2025’. Ar gael yn: Ystadegau rheoli troseddwyr chwarterol: Gorffennaf – Medi 2025 - GOV.UK

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024) Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, Cymru a Lloegr: Marwolaethau yn y ddalfa hyd at fis Rhagfyr 2016, Ymosodiadau a Hunan-niwed hyd at fis Medi 2016. Ar gael yn: Safety in Custody Statistics Bulletin, England and Wales, Deaths in prison custody to December 2016, Assaults and Self-Harm to September 2016

Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi gwybodaeth am hawlfraint unrhyw drydydd parti, bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho: [Ein hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk)]

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Arolygiaeth Carchardai EF sy’n berchen ar hawlfraint pob delwedd, oni nodir fel arall.